Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Ty'r Cymry**
**11 Heol Gordon**
**Y Rhath**
**Caerdydd**
**CF24 3AJ**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mehefin 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Datblygu gweithdrefnau asesu sy'n nodi datblygiad medrau'r plant yn glir ac yn amlygu'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r arweinydd yn rhannu ei gweledigaeth yn glir gyda'r ymarferwyr, gan roi ffocws penodol ar sicrhau bod y gweithdrefnau asesu a chynllunio yn effeithiol. O ganlyniad, mae strwythur clir i'r gweithdrefnau ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y plant.

Mae pob ymarferydd yn y lleoliad yn arsylwi'n graff ar blant wrth eu gweithgareddau ac yn cofnodi eu sylwadau ar gynnydd unigolion mewn ffurf electronig. Mae eu nodiadau yn cynnwys ffocws clir ar asesu medrau penodol. Mae'r arweinydd yn ystyried asesiadau'r holl ymarferwyr i adnabod y camau nesaf ar gyfer pob plentyn. Mae nodiadau ar gyflawniad unigolion yn cyfrannu'n dda at y dystiolaeth o gynnydd a nodir ym mhroffil asesu pob plentyn. Mae'r proffiliau hyn yn rhoi trosolwg clir i'r ymarferwyr o gryfderau unigolion, y cynnydd maent wedi ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Cynhelir cyfarfodydd wythnosol i'r ymarferwyr drafod cynnydd pob plentyn. Cofnodir hyn ar daflen briodol sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio'r gweithgareddau ar gyfer yr wythnos ganlynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd a wneir o'r asesiadau wrth gynllunio'r camau nesaf ar gyfer y plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i asesu plant yn gywir, ac maent bellach yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn systematig fel sail i'w cofnodion. Mae cofnodi eu sylwadau yn electronig yn galluogi ymarferwyr i rannu'r wybodaeth yn hawdd gyda'r gweithwyr allweddol eraill, sy'n nodi unrhyw gyflawniadau nodedig ym mhroffil y plentyn penodol maes o law.

Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau dyddiol yn gyson i werthuso'r dysgu ac i lywio'r cynllunio wythnosol i gefnogi datblygiad ym medrau'r plant. O ganlyniad, mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn llywio'r cynllunio i atgyfnerthu medrau'r plant a'u symud yn eu blaenau yn briodol.

**Argymhelliad 2: Cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n cyfateb yn dda i allu'r plant a'u cyflawniad blaenorol ac i ddarparu'r plant â her ddigonol.**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan y lleoliad daflenni cynllunio effeithiol.  Mae'r ymarferwyr yn eu defnyddio'n ddyddiol i sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir yn mynd i'r afael ag anghenion penodol bron bob plentyn yn addas ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn systematig.  Mae'r rhain yn galluogi ymarferwyr i nodi gweithgareddau ffocws, tasgau estynedig a darpariaeth barhaus yn adeiladol.  Mae'r taflenni yn nodi cyfrifoldebau penodol yr ymarferwyr, sy'n sicrhau eu bod yn deall eu rolau dyddiol yn glir.  Mae'r ymarferwyr yn arfarnu'r cynlluniau yn rheolaidd i ddarganfod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei addasu.

Mae'r ymarferwyr yn ystyried diddordebau'r plant ynghyd ag unrhyw ddigwyddiad arbennig sy'n digwydd yn ystod y tymor i lywio'r cynlluniau tymhorol yn dda.  Er enghraifft, mae'r plant wedi dewis adeiladu tractor allan o focsys cardfwrdd wrth ddysgu am anifeiliaid y fferm.  Maent hefyd yn targedu rhai medrau penodol i'w datblygu ar draws ystod o weithgareddau.  Mae'r rhain yn cysylltu'n benodol â chyrhaeddiad blaenorol plant.  Mae'r cynlluniau'n dangos yn glir sut y caiff gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant eu datblygu'n systematig dros gyfnod.

Mae ymarferwyr yn addasu gweithgareddau sy'n mynd i'r afael ag anghenion bron pob un o'r plant yn briodol er mwyn rhoi her iddynt.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad ac yn sicrhau eu bod yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau.

**Argymhelliad 3:  Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg a gwybodaeth (TGCH) y plant**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n benodol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn rheolaidd.  Yn ddiweddar iawn, mae'r ymarferwyr wedi addasu'r fformat cynllunio er mwyn adnabod mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh y plant.  Mae hyn yn sicrhau bod y cynllunio'n dechrau datblygu medrau'r plant yn fwy systematig dros gyfnod.  Maent yn cynllunio gweithgareddau buddiol sy'n galluogi plant i ddatblygu eu medrau'n briodol mewn ystod o gyd-destunau.  Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn tynnu ffotograffau ar gyfer cardiau Pasg heb lawer o anogaeth oedolyn.

Mae gan y lleoliad bellach ystod briodol o gyfarpar TGCh fel llechi electronig, teganau rhaglenadwy a dyfeisiau recordio digidol.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant o sut gall TGCh fod o gymorth iddynt yn eu chwarae.  Yn gyffredinol, mae'r adnoddau TGCh yn hygyrch i'r plant sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau synhwyrol o bryd a sut i'w defnyddio yn eu chwarae.  Er enghraifft, wrth chwarae gyda bocsys cardfwrdd, mae'r plant yn dewis creu cuddfan gan ddefnyddio tortshys electronig i'w goleuo.

**Argymhelliad 4:  Adolygu'r trefniadau ar gyfer amser byrbryd.**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad yn trefnu amser byrbryd yn effeithiol, gan addasu'r trefniant yn unol â nifer y plant sy'n mynychu yno ar ddiwrnodau penodol.  Er enghraifft, os bydd nifer

fawr yn bresennol mewn sesiwn, trefnir y plant mewn grwpiau fel nad oes gormod yn eistedd o gwmpas y bwrdd am gyfnodau hir. Mae hyn yn sicrhau bod y cyfnod hwn yn weithgarwch mwy tawel, effeithiol a phwrpasol ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r cyfnod hwn i ddatblygu medrau rhifedd, llafar a chymdeithasol y plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r modd y maent yn annog y plant i gyfrif darnau o ffrwythau i'w gosod ar bob plât. Mae ymarferwyr yn cynnwys y plant yn briodol yn y dasg o baratoi'r ffrwythau a'u hannog i'w rhannu'n deg ymysg ei gilydd, gan sgwrsio â nhw am eu hoff ffrwyth.

**Argymhelliad 5: Creu cynllun datblygu sy'n nodi sut i fynd i'r afael â gwelliannau.**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Erbyn hyn, mae gan y lleoliad gynllun datblygu buddiol sy'n mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd yn effeithiol. Mae'r cynllun cyfredol yn amlinellu'n glir y camau i'w cymryd a'r amserlen gweithredu ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr wrth fonitro a chadw cofnodion o'r gweithdrefnau a gyflwynwyd i wella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y camau gweithredu yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn rheolaidd ac yn addasu gweithgareddau yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae'r cynllun yn arf defnyddiol i alluogi arweinwyr i gynllunio'n fwy effeithiol i wella gwaith y lleoliad ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar yr holl argymhellion a nodwyd yn dilyn yr arolygiad craidd.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.